


Cynllun Cydraddoldeb Strategol PA

2020-2024

“Rydym o’r farn mai ystyr creu amgylchedd cynhwysol yw sicrhau bod yr un cyfleoedd ar gael i bawb, pwy bynnag ydynt, a dileu rhwystrau diwylliannol megis gwahaniaethu ac anoddefgarwch”



Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliad 2020-2023

Cynhwysol ('Un PA'):

- Gweithio gyda'n gilydd a chroesawu pawb
- Parchu a gwerthfawrogi cyfraniad pawb i'r Brifysgol, beth bynnag fo'u gwaith neu eu lefel
- Ethos gwasanaeth cwsmeriaid cryf i bawb

Pwrpas a Nodau

Ein pwrpas yw meithrin cymuned ddysgu a gweithio gynhwysol heb fod ynddi wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth, lle caiff ein holl staff a'n dysgwyr eu cefnogi, eu parchu a chyfle i wireddu eu potensial. Trwy wneud hyn, dylai'r mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gefnogi ein blaenoriaethau strategol ehangach, sef:

- Denu Myfyrwyr
- Profiad Myfyrwyr a Chadw Myfyrwyr
- Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil (yn cynnwys y FfRhY)
- Cynaliadwyedd Ariannol

Ein nod yw sicrhau diwylliant o ddidwylledd a pharch er mwyn adnabod a dileu rhwystrau i gyflogaeth a dysgu. Dymunwn i'n staff a'n myfyrwyr deimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cyrraedd eu potensial llawn er lles yr unigolyn, y sefydliad a'r gymdeithas ehangach. Cyfrifoldeb pob un o'n cyd-weithwyr yw bod yn gynhwysol wrth weithio, sicrhau eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar gydraddoldeb ac ymrwymo i gefnogi mentrau amrywiaeth.

Sylfaen dystiolaeth

Yn ôl ein sylfaen dystiolaeth, nid oes digon o **gydraddoldeb rhwng y rhywiau ymhlith academyddion uwch yn benodol, nac ychwaith gynrychiolaeth ddigonol o ethnigrwydd ymhlith ein staff a'n myfyrwyr**. Bydd y Cynllun hwn yn canolbwyntio ar hyn. Lluniwyd amcanion a chamau gweithredu'r strategaeth hon drwy:

- Gyfarfodydd ymgynghori ag aelodau staff allweddol a rhanddeiliaid
- Dadansoddiad cynhwysfawr o'r data ar gydraddoldeb sy'n ymwneud â'n staff a'n myfyrwyr
- Dadansoddiad o'r data ar gydraddoldeb staff mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Arbedion 2016-2020
- Cynllun gweithredu sefydliadol ar gyfer gwobr Efydd Athena Swan
- Prosiect 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y cwricwlwm' Advance HE gyda Phrifysgol Aberystwyth
- Yr adroddiad 'A yw ein Prifysgol yn Rhy Wyn?' a ysgrifennwyd gan gyd-weithwyr PA ym mis Hydref 2019

Amcanion 2020-2024:

Mae pum llinyn i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ac amlinellir y camau gweithredu ar gyfer pob llinyn isod:

Llinyn	Cam Gweithredu
1. Codi ymwybyddiaeth ac ennill cefnogaeth uwch reolwyr (=AMLYGRWYDD)	Datblygu ymgyrch 'adnabod eich staff, ADNABOD EICH MYFYRWYR' i'w chynnal bob blwyddyn yn unol ag adrodd ar gydraddoldeb a fydd yn codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob ffurf. Annog a disgwyl i'r uwch reolwyr weithredu fel mentoriaid cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eitemau sefydlog ar bwyllgorau allweddol y Brifysgol
2. Amrywio'r staff a'r myfyrwyr (=CYMUNED AMRYWIOL)	Llunio cyfres o fentrau gweithredu cadarnhaol a mentrau marchnata wedi'u targedu er mwyn cynyddu nifer y cynrychiolwyr ac amrywio'r staff a'r myfyrwyr
3. Sicrhau cydraddoldeb prosesau (=AMLYGRWYDD a CHYMUNED AMRYWIOL)	Monitro ac adolygu prosesau, modelau rheoli, dyrchafiadau, telerau ac amodau, er mwyn sicrhau eu bod yn deg, ac yn dryloyw a bod yr holl staff yn cael eu trin yn deg
4. Hyfforddi a mentora (=DATBLYGIAD)	Datblygu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar faterion cydraddoldeb i holl aelodau staff PA Datblygu rhaglenni mentora ar gyfer aelodau staff sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol
5. Cau'r bylchau rhwng cyflogau staff a chyraeddiadau myfyrwyr (=DATBLYGIAD a CHYMUNED AMRYWIOL)	Monitro cyflogau ein staff a'r bylchau yng nghyraeddiadau'r myfyrwyr mewn perthynas ag amryw grwpiau lleiafrifol bob blwyddyn, a sicrhau bod cyfres o gamau gweithredu yn cael eu llunio er mwyn gweithio tuag at gau'r bylchau rhwng cyflogau staff a chyraeddiadau myfyrwyr

Bydd y camau blaenoriaeth hyn yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn amryw o wahanol fformatau, e.e. copi caled, Braille, print mawr, ac ati. Os bydd angen y ddogfen mewn fformat gwahanol arnoch chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod, cysylltwch â Ruth Fowler ruf@aber.ac.uk